YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD: YMCHWILIAD I AILGYLCHU YNG NGHYMRU

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau ymchwiliad y Pwyllgor. Mae'n braf iawn bod y Pwyllgor wedi derbyn neges hynod gadarnhaol am ailgylchu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn y Pwyllgor bod ymateb pobl Cymru i ailgylchu eu gwastraff wedi bod yn eithriadol dda. Eu hymdrechion hwy, ac ymdrechion eu hawdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am y ffaith bod Cymru, erbyn hyn, yn arwain y DU mewn ailgylchu, a hynny o gryn dipyn, ac y byddai yn y pedwerydd safle yn yr Undeb Ewropeaidd pe bai'n aelod-wladwriaeth ar wahân.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod heriau o'i blaen. Fodd bynnag, mae'n optimistig y bydd yn cyrraedd targedau'r dyfodol. I raddau helaeth, bydd yn gwneud hynny ar sail ymyriadau gan Lywodraeth Cymru o dan y Rhaglen Newid Cydweithredol a'r rhaglen seilwaith gwastraff, lefelau cyson o gyllid ac effeithiau buddiol deddfwriaeth y dyfodol, gan gynnwys y darpariaethau gwastraff arfaethedig ym Mil yr Amgylchedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod canfyddiad y Pwyllgor nad yw rhai awdurdodau lleol yn rhannu cred Llywodraeth Cymru mai mabwysiadu patrwm gwasanaeth y Glasbrint Casgliadau yn gyffredinol fyddai'n cynnig yr opsiwn mwyaf cynaliadwy, gan gynnig yr ateb economaidd, ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol gorau yn gyffredinol i Gymru. Wrth ddatblygu'r Glasbrint, roedd Llywodraeth Cymru yn derbyn yr angen am hyblygrwydd mewn dulliau casglu, yn ôl math o dai a daearyddiaeth. Mae hyn yn amlwg eisoes, fel y mae'r gwahanol awdurdodau sy'n rhoi dull y Glasbrint ar waith wedi'i ddangos. O Ynys Môn a Chonwy, drwy Bowys i awdurdodau'r Cymoedd fel Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen, ac ymlaen i ddinas Casnewydd - mae'r rhai sydd wedi mabwysiadu dull y Glasbrint o weithredu'n hyblyg ac yn ystyried beth mae eu cymunedau'n ei ffafrio.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes unrhyw gyfyngiadau niweidiol yn effeithio ar awdurdodau lleol os ydynt yn mabwysiadu dull y Glasbrint o weithredu. Ym marn Llywodraeth Cymru, bydd mabwysiadu'r Glasbrint yn eang yn arwain at yr effeithlonrwydd cysylltiedig ag ef, a hefyd yn arwain at arbedion effeithlonrwydd drwy gaffael (arbedion maint), rhannu cyfleusterau canolfannau a ffordd gyson o gyflwyno deunyddiau i'r farchnad. Er bod Llywodraeth Cymru yn cytuno â safbwyntiau'r Pwyllgor am ddull mwy safonol o weithredu gyda lliwiau'r cynwysyddion, rydym yn credu y gwelir llawer iawn mwy o effeithlonrwydd ac o arbedion os yw'r math o gynwysyddion, y math o gerbydau casglu a'r dulliau o farchnata deunyddiau'n fwy safonol ledled Cymru. Dylid sicrhau cyfleoedd ar gyfer dull o weithredu sydd wedi'i reoleiddio'n well ledled Cymru wrth i ad-drefnu llywodraeth leol ac adnewyddu contractau greu cyfleoedd newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn na ddylai targedau ailgylchu seiliedig ar bwysau fod yn nod ar draul lleihau ôl troed ecolegol. Seilir y targedau ailgylchu yng Nghymru ar gyfrannau (fel canrannau o gyfanswm y gwastraff sy'n cael ei gasglu) ac maent yn cyd-fynd yn llwyr â lleihau gwastraff. Yn wir, mae cyfanswm y gwastraff trefol wedi bod yn lleihau'n gyson yn ystod y deng mlynedd diwethaf tra bo cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu'n eithriadol. Mae'n well ailgylchu 70 tunnell allan o 100 tunnell o

wastraff a gynhyrchir na 100 tunnell allan o 200 tunnell o wastraff a gynhyrchir. Mae'r targedau wedi'u seilio ar gyfrannau o bwysau ac nid ar bwysau absoliwt, ac felly'n cyd-fynd â'r amcanion strategol ar gyfer lleihau cyfanswm y gwastraff a hefyd effeithiau ôl troed ecolegol.

Hefyd, o ran tueddiadau yn y dyfodol mewn cyfansoddiad a chyfanswm gwastraff, bydd gostyngiad ym mhwysau cynhyrchion a phecynnau'n golygu bod cyfanswm llai o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu ac o wastraff am bob person yn gyffredinol. Amser a ddengys a yw cyfran y deunyddiau hyn y gellir eu hailgylchu'n lleihau. Mae Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod cynnydd mawr mewn ailgylchu wedi digwydd ar yr un pryd â'r gostyngiad yng nghyfanswm cyffredinol y gwastraff o gartrefi. Nid oes raid wrth wrthdaro rhwng ailgylchu ac atal gwastraff; mae'r ddau'n ategu ei gilydd yn null Llywodraeth Cymru o weithredu.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn bwriadu adolygu ei bolisi a'i dargedau ar wastraff fel rhan o'r cylch arferol o lunio ac adolygu ei strategaeth gwastraff a'i raglen atal gwastraff, sef gofyniad statudol o dan Erthyglau 28 - 30 Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon cytuno i'r ymchwiliadau a'r adolygiadau amrywiol y mae'r Pwyllgor yn eu hargymell.

Argymhelliad 1
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad annibynnol o'r 'Glasbrint Casgliadau' a'r dystiolaeth y mae'n seiliedig arni. Wrth gomisiynu'r adolygiad hwn, dylai'r Llywodraeth:
– sicrhau bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhan o lunio'r cylch gorchwyl a dewis yr adolygydd;
– cynnwys dadansoddiad o'r data diweddaraf ar gyfraddau gwrthod a chyrchfan deunyddiau y gellir eu hailgylchu o bob dull casglu;
– cwblhau'r adolygiad erbyn diwedd mis Mawrth 2016, er mwyn iddo lywio'r dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i gyrraedd y targed o 64% yn 2019/20.

Ymateb: Derbyn

Cafodd un rhan allweddol o'r dystiolaeth a oedd yn sail i'r Glasbrint Casgliadau, sef yr astudiaeth a arweiniodd at gyhoeddi adroddiad 'Opsiynau Casglu o Ddrws i Ddrws: Cymru' gan Raglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) ym mis Ionawr 2011, ei goruchwylio gan grŵp llywio a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a 9 awdurdod lleol yng Nghymru. Darparodd y grŵp hwn lefel uchel o graffu drwy gydol y prosiect.

Mae dull y Glasbrint o weithredu wedi cael ei brofi eisoes yn ddiweddar, fel rhan o adolygiadau gwasanaeth y Rhaglen Newid Cydweithredol. Ym mhob achos, canfuwyd mai hwn yw'r opsiwn mwyaf cost effeithiol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n arwain at amau'r cynsail mai'r Glasbrint sy'n cynnig y manteision mwyaf cost effeithiol a chynaliadwy. Hefyd, mae peidio â dilyn y Glasbrint yn creu mwy o risg i awdurdodau lleol o ran cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol newydd ar gyfer casglu ar wahân a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2015.

Mae'n amser adnewyddu'r Glasbrint a gyhoeddwyd gyntaf yn 2010. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn bwriadu diweddaru'r Glasbrint yn 2015, gan ystyried adolygiad o ddatblygiadau newydd mewn offer, canlyniadau'r cynlluniau peilot, a'r

angen am gasglu deunyddiau ychwanegol er mwyn cyrraedd y targedau ailgylchu uwch. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad annibynnol o'r dystiolaeth. Wrth gasglu ac adolygu'r dystiolaeth a diweddaru'r Glasbrint, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am gyngor rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Tra bo'r adolygiad yn mynd rhagddo, mae'n hanfodol nad yw awdurdodau lleol yn oedi gyda'u hymdrechion i adolygu gwasanaethau a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol er mwyn sicrhau arbedion arwyddocaol o ran costau. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i argymell bod awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r Glasbrint pan fo adolygiad gwasanaeth yn datgan mai hwn yw'r opsiwn gorau – gan arwain at wasanaeth cyffredinol sy'n fwy cyson ledled Cymru.

Mae'n rhaid asesu goblygiadau ariannol derbyn yr argymhelliad hwn a bydd rhaid cynnwys hynny yn narpariaeth bresennol y Prif Grŵp Gwariant.

Argymhelliad 2
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog cydweithio rhwng awdurdodau lleol wrth adnewyddu contractau ar gyfer darparu offer i gartrefi ar gyfer casglu gwastraff y gellir ei ailgylchu.

Ymateb: Derbyn:

Mae cydweithredu rhwng awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau yn adnodd gwerthfawr posib i wella gwasanaethau a sicrhau arbedion. Er enghraifft, bydd defnyddio a chaffael ystod fwy safonol o gynwysyddion, casglu'r un ystod o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu, a defnyddio'r un ystod o gerbydau casglu yn arwain, yn sicr bron, at arbed arian drwy arbedion maint.

Mae Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) sy'n helpu i gyflwyno'r Rhaglen Newid Cydweithredol wrthi'n creu contract fframwaith a fydd yn galluogi i awdurdodau lleol gaffael cynwysyddion. Mae WRAP mewn sefyllfa dda i gynorthwyo gyda chaffael a helpu awdurdodau lleol i gydweithio.

Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ymhellach ac yn ceisio sicrhau bod patrwm gwasanaeth cyffredin yn cael ei ddarparu ledled Cymru, gydag amrywiadau lleol cyson ar gyfer mathau penodol o dai. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cefnogi contractau caffael ar y cyd ar gyfer bagiau bwyd a gwastraff gweddillol ac ar gyfer cerbydau.

Mae'n rhaid asesu goblygiadau ariannol derbyn yr argymhelliad hwn a bydd rhaid cynnwys hynny yn narpariaeth bresennol y Prif Grŵp Gwariant.

Argymhelliad 3
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y wybodaeth am ble anfonir gwastraff a gesglir o gartrefi ar gael i'r cyhoedd.

Ymateb: Derbyn:

Mae'r wybodaeth hon wedi bod ar gael i'r cyhoedd bob blwyddyn ers 2012 (gan roi sylw i ddata o fis Hydref 2010 ymlaen). Mae tair cyfres ddata flynyddol wedi cael eu

rhyddhau gan Lywodraeth Cymru, yn nodi cyrchfannau'r deunyddiau ailgylchu sy'n cael eu casglu gan awdurdodau lleol yn y pen draw. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am gyrchfannau yn y pen draw (ar gyfer 2012/13) ar gael yn https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Recycling-Destinations

Bydd y cyfresi data hyn sydd wedi'u creu ar gyfer Llywodraeth Cymru yn helpu awdurdodau lleol i sicrhau'r wybodaeth y byddai'r Pwyllgor yn hoffi gweld yr awdurdodau lleol yn ei dosbarthu.

Wrth dderbyn argymhelliad y Pwyllgor, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid cael deddfwriaeth yn y dyfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybod i'w trigolion am gyrchfannau deunyddiau gwastraff.

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru wrth dderbyn yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 4
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i dargedau sy'n seiliedig ar bwysau ac a ydynt yn cael unrhyw effaith anfwriadol ar leihau ôl troed ecolegol gwastraff. Dylid cwblhau hyn erbyn diwedd 2015.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i dargedau sy'n seiliedig ar bwysau ac yn ystyried a ydynt yn cael unrhyw effaith na fwriadwyd ar leihau ôl troed ecolegol gwastraff.

Fodd bynnag, dylid nodi bod targedau Cyfarwyddeb Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd yn seiliedig ar bwysau i gyd – gan gynnwys y rhai perthnasol i ailgylchu ac adfer pecynnau, cerbydau diwedd oes, offer trydan ac electronig gwastraff, batris, gwastraff cartrefi a gwastraff adeiladu, a lleihau gwastraff trefol pydradwy drwy dirlenwi.

Mae ffyrdd eraill o fesur effeithiau gwastraff ac ailgylchu ar lefel leol wedi cael eu hystyried ond maent wedi cael eu diystyru'n flaenorol oherwydd eu hanfanteision neu eu hanawsterau ymarferol. Er enghraifft, nid yw'n ymarferol pennu targedau lleihau ôl troed ecolegol unigol i awdurdodau lleol oherwydd yr anawsterau gyda mesur, ac mae pennu targedau seiliedig ar garbon yn gallu lliniaru yn erbyn atal gwastraff.

Mae'n rhaid asesu goblygiadau ariannol derbyn yr argymhelliad hwn a bydd rhaid cynnwys hynny yn narpariaeth bresennol y Prif Grŵp Gwariant.

Argymhelliad 5
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i'r berthynas rhwng y rhagamcanion ar gyfer lleihau gwastraff; incwm awdurdodau lleol o wastraff; a gallu awdurdodau lleol i gyrraedd eu targedau ailgylchu yn y cyfnod hyd at 2019/20 ac yna 2024/25. Dylid cwblhau hyn erbyn diwedd mis Mawrth 2016.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r berthynas rhwng amcanestyniadau ar gyfer atal gwastraff, y newid yng nghyfansoddiad gwastraff cartrefi, incwm awdurdodau lleol o wastraff, a gallu awdurdodau lleol i gyrraedd targedau yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn fel rhan o'r gwaith o adolygu Tuag At Ddyfodol Diwastraff, strategaeth gwastraff Cymru, a bydd yn ystyried unrhyw gynigion o'r newydd ar gyfer targedau gwastraff newydd yn yr Undeb Ewropeaidd sydd i gael eu datblygu yn 2015.

Mae'n rhaid asesu goblygiadau ariannol derbyn yr argymhelliad hwn a bydd rhaid cynnwys hynny yn narpariaeth bresennol y Prif Grŵp Gwariant.

Argymhelliad 6
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r achos o blaid sefydlu 'brocer' cenedlaethol ar gyfer gwerthu deunydd ailgylchu ar ran awdurdodau lleol ledled Cymru. Dylai'r Llywodraeth gyhoeddi ei ganfyddiadau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2015.

Ymateb LlC: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod cyfrifoldeb eisoes ar Raglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) am wella'r gwaith o farchnata deunyddiau ar gyfer ailgylchu, gan gynnwys asesu'r potensial i sefydlu system brocer ar gyfer deunydd eildro awdurdodau lleol, a'i manteision.

Mae'n rhaid asesu goblygiadau ariannol derbyn yr argymhelliad hwn a bydd rhaid cynnwys hynny yn narpariaeth bresennol y Prif Grŵp Gwariant.

Argymhelliad 7
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhinweddau buddsoddi mewn ymgyrch genedlaethol i helpu i gynyddu cyfraddau ailgylchu, gan gynnwys hybu dealltwriaeth o'r angen i leihau ôl troed ecolegol gwastraff a phwysigrwydd mesurau eraill, yn enwedig lleihau gwastraff.

Ymateb LlC: Derbyn mewn egwyddor

Mae ymgyrch genedlaethol i hybu ymwybyddiaeth o'r angen am leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu, ac i sicrhau newid mewn ymddygiad, wedi bod ar waith ers 2004, o dan arweiniad y Cynllun Craff am Wastraff gyda chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Os bydd yr adnoddau ariannol yn caniatáu, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a yw'n fanteisiol ymestyn yr ymgyrchoedd presennol i helpu gyda sbarduno cyfraddau ailgylchu uwch a hybu gwell dealltwriaeth o'r angen am leihau ôl troed ecolegol gwastraff. Byddai hyn yn cynnwys pwysigrwydd lleihau ac ailddefnyddio, ac adeiladu ar ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol a fu'n llwyddiannus yn y gorffennol. Fodd bynnag, gall cyfathrebu â chartrefi ar lefel fwy lleol fod yn flaenoriaeth uwch, i sbarduno cyfranogiad uwch a mwy effeithiol, yn enwedig o ran casglu gwastraff bwyd ar wahân.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cefnogi ymgyrch genedlaethol Caru Bwyd, Casáu Gwastraff, sydd wedi'i datblygu gan WRAP a'i chyflwyno yng Nghymru drwy'r

Cynllun Craff am Wastraff a WRAP Cymru. Nod yr ymgyrch hon yw helpu cartrefi i leihau eu gwastraff bwyd ac arbed arian. Mae hefyd yn helpu i leihau ôl troed ecolegol Cymru.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Craff am Wastraff hefyd yn cynnwys elfen o ymgyrchu cenedlaethol.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi negeseuon a straeon atal gwastraff ac ailgylchu ar y cyfryngau cenedlaethol yng Nghymru.

Mae'n rhaid asesu goblygiadau ariannol derbyn yr argymhelliad hwn a bydd rhaid cynnwys hynny yn narpariaeth bresennol y Prif Grŵp Gwariant.